RHIFYN
ISSUE
10
01.07.19

Llais Llantrisant

TENNIS
TENNIS

Llongyfarchiadau mawr i'r plant isod ar ddod yn 5ed yn Ne Cymru mewn twrnamaint tennis yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i'r holl rieni am eu cymorth ar y diwrnod!

Congratulations to the children pictured below who competed in a tennis tournament recently in Cardiff and finished 5th in South Wales! Many thanks to those parents who helped us out on the day!



MABOLGAMPAU
SPORTS DAYS

O'r diwedd, dyma ni'n cynnal Mabolgampau'r ysgol ar ôl gorfod gohirio dwywaith! Diolch i bawb ddaeth i gefnogi a llongyfarchiadau i bob plentyn am gymryd rhan. Os hoffech fwrw golwg dros albwm o luniau a dynnwyd yn ystod y boreau a gweld y plant gyda'u tystysgrifau a medalau, cliciwch yma.

At last, we managed to hold our Sports Days after postponing twice! Many thanks to all our supporters and congratulations to all pupils who took part. If you'd like to browse through an album of photographs taken during the mornings and see the children with their certificates and medals, click here.



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

03/09.07.19 - Blwyddyn 5 yn Ysgol Llanhari
Year 5 visit Ysgol Llanhari
03/04.07.19 - Sioe Bl. 1 a 2 (2:00yp/pm)
Yr 1 and 2 show(2:00yp/pm)
08.07.19 - Cyfarfod Pontio Blwyddyn 2 (isod)
Year 2 Transition Meeting (see below)
12.07.19 - Dosbarthu Adroddiadau diwedd y flwyddyn
End of Year Reports sent out
16/17/18.07.19 - Sioeau CA2 (1:00yp/pm)
KS2 shows (1:00yp/pm)

HWYL FAWR A DIOLCH!
FAREWELL AND THANK YOU!



Yn anffodus, mae nifer o staff yn ein gadael ni eleni. Wedi saith mlynedd ar hugain o addysgu, a phum mlynedd ar hugain o'r blynyddoedd hynny yn ein hysgol ni, mae'n amser i ni ffarwelio â Mrs Mair Williams. Ni fydd Mrs Williams yn dychwelyd atom fis Medi gan y bydd yn mwynhau gwyliau hamddenol yn yr Eidal - mae Mrs Williams yn ymddeol, yn gynnar wrth gwrs! Diolch yn fawr i Mrs Williams am ei hymroddiad ar hyd y blynyddoedd - bydd pawb yn gweld ei heisiau hi, rwy'n siwr. Hefyd, dymunwn bob hwyl i Mrs Lisa Barrington, Cynorthwywraig Addysgu y Cyfnod Sylfaen, ar ôl 8 mlynedd hapus gyda ni. Bydd Mrs Barrington yn ein gadael cyn diwedd y flwyddyn ar Orffennaf y 12fed i ddechrau swydd newydd yng Nghaerdydd. Diolch yn fawr iawn hefyd, felly, i Mrs Barrington, am ei holl waith caled.



Aelod arall o staff fydd yn ein gadael eleni yw Mrs Cathy Cowles. Ni fydd Mrs Cowles yn cynorthwyo Mrs Krieger yn y Swyddfa fis Medi ond byddwch yn parhau i'w gweld o hyd ar iard yr ysgol yn goruchwylio'r plant yn ystod yr awr ginio. Diolch i Mrs Cowles am ei chymorth. Felly, hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r tri aelod o staff a phob dymuniad da iddynt.

Unfortunately, a number of staff are leaving us this year. After twenty seven years of teaching, and twenty five of those here in our school, it is time to say farewell to Mrs Mair Williams. Mrs Williams won't be returning to us in September since she will be sunning it up on a leisurely holiday in Italy - Mrs Williams is retiring, early of course! Many thanks to Mrs Williams for her dedication throughout the years - everyone will miss her in September.



Also, we wish Mrs Lisa Barrington, one of our Foundation Phase Teaching Assistants, all the best after 8 happy years with us. Mrs Barrington leaves us before the end of the year on July 12th to take up a new post in Cardiff. Many thanks to Mrs Barrington, also, for all her hard work.

Another member of staff leaving us this year is Mrs Cathy Cowles. Mrs Cowles will no longer support Mrs Krieger in the Office in September but you'll still see her supervising the pupils in the lunch hall and playground during the lunchbreaks. We thank Mrs Cowles for her help. So, many thanks to all three members of staff and we give them all our best wishes.

SYMUD O FLWYDDYN 2 i FLWYDDYN 3
MOVING FROM YEAR 2 to YEAR 3

Trefnir cyfarfod ar gyfer Rhieni Blwyddyn 2 yn neuadd yr ysgol ar 08.07.19 rhwng 3:45yp - 4:45yp i drafod y symud o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. Hefyd, bydd Mrs Hulse yn rhannu adnoddau yn gysylltiedig ag ysgrifennu Saesneg yn ystod y cyfarfod. Edrychwn ymlaen at eich gweld. (Llythyr)

A meeting in the school hall has been arranged on 08.07.19 between 3:45pm - 4:45pm for Year 2 parents to discuss the transition from the Foundation Phase to Key Stage 2. During this meeting, Mrs Hulse will share English writing resources during the meeting. We look forward to seeing you. (Letter)

SENEDD YR YSGOL
SCHOOL PARLIAMENT

Ddydd Mawrth, Mehefin 18fed, aeth aelodau hŷn Pwyllgor Ysgolion Iach, Senedd yr Ysgol, i bentref Pontyclun i siarad â pherchnogion y siopau am y cynllun 'ReFill'. Wyddoch chi fod rhan fwyaf o siopau'r pentref yn fodlon ail-lenwi poteli dŵr i chi am ddim? Diolch i aelodau Cyngor Cymunedol Pontyclun am ein gwahodd i fod yn rhan o'r ymgyrch.

Tuesday, June 18th, the older members of the School Parliament's Healthy Schools Committee visited the shops in Pontyclun village to talk to the shopkeepers about the 'ReFill' scheme. Did you know that most of the shops now operate this scheme and are willing to fill up reusable water bottles free of charge should you ask. Thank you to the members of Pontyclun Community Council for the invitation to be part of this campaign.










Cofiwch ymweld â / *Visit us*: www.ygggllantrisant.cymru

YSGOL DDI-ARIAN
A CASHLESS SCHOOL

Mae casglu a phrosesu arian sydd yn cael ei anfon i'r ysgol ar gyfer ymweliadau a digwyddiadau yn faich, ar adegau, gyda miloedd o bunnoedd yn pasio trwy Swyddfa'r ysgol weithiau. Hefyd, nodir yn ddiweddar fod tipyn o arian naill ai yn mynd ar goll o amlenni'r plant neu'n mynd ar goll yn gyfan gwbl rhwng y cartref a'r ystafell ddosbarth! Felly, er mwyn lleihau faint o arian sydd yn dod i mewn i'r ysgol, i hwyluso prosesau ac i sicrhau nad yw'ch arian chi yn mynd ar goll, hoffem fabwysiadu system newydd yn yr ysgol i dalu am ddigwyddiadau ac ymweliadau ar-lein. Y bwriad yw i ddefnyddio system talu ar-lein RCT - y system talu ar-lein am giniawau ysgol sydd wedi bod gennym ers 2012 bellach. (Byddwn yn eich atgoffa o'ch manylion talu am giniawau cyn diwedd mis Gorffennaf). Rwy'n siwr y byddai'r cyfle i dalu am ragor o bethau ar-lein yn llawer mwy cyfleus i chi hefyd. Bydd cofnod o'ch taliadau i gyd a ni fydd arian yn mynd ar goll! Ni fydd angen chwilio'r tŷ am arian parod ac amlenni! Hefyd, gyda'r ysgol yn colli aelod o staff o swyddfa'r ysgol fis Medi, bydd yn helpu Mrs Krieger yn fawr! Clerc Ysgol hapus = Pennaeth hapus ☺



Collecting and processing monies which are sent into school for educational trips and events can be very time consuming with thousands of pounds passing through the school office at times. Also, we have noticed recently that some money has been lost from envelopes between home and the classroom! So, to reduce the amount of money coming in to school, to improve processes and to ensure that our parents' monies are not able to go missing before reaching the school office we should like to adopt a new online payment system used by many other schools to pay for school events and trips. The intention is to use the long established RCT online payment system - the online payment system for school lunches which we have used since 2012. (We shall remind everyone of their log on details before the end of July). I am sure that this new system would be more convenient for parents also. There will be an electronic log of your payments and no monies will go astray! You will no longer need to search the house for change and envelopes! Also, with school losing a member of office staff in September it would greatly help Mrs Krieger! A happy School Clerk = a happy Head Teacher ☺

DIGWYDDIAD DATHLU DIWEDD Y FLWYDDYN GGY31
SIG31 END OF YEAR CELEBRATION EVENT

(Cliciwch i ddysgu rhagor am yr ysgolion / *Click to learn more about the schools*)

Ddydd Iau, Mehefin 27ain, daeth plant a staff o bedair ysgol arall atom i ddathlu holl waith Grŵp Gwella Ysgol 31 (SIG31) eleni. Ffocws ein gwaith fel grŵp o ysgolion partner eleni oedd i hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ysgolion Saesneg eu cyfrwng y grŵp. Felly, daethom at ein gilydd i gyflwyno rhai o'r eitemau cerddorol a berfformiwyd gan bob ysgol yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Bore llawn hwyl a sbri gyda phawb yn mwynhau ac yn cymdeithasu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg! Braf oedd gweld ein ffrindiau yn yr ysgolion Saesneg eu cyfrwng yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn hyderus ac yn cystadlu yn @EisteddfodUrdd. #Siarterlaith

On Thursday June 27th, pupils and staff from four other schools visited us to celebrate all the excellent work undertaken by the members of School Improvement Group 31 (SIG31) this year. The focus of our work this year as partner schools was to promote the use of the Welsh language in the English medium schools within the group. So, we all came together to present some of the musical items which each school performed in the Urdd Eisteddfod this year. A morning full of fun with everyone socializing and enjoying themselves through the medium of Welsh! It was great to see our friends from the English medium schools amongst us using the Welsh language confidently and competing in @EisteddfodUrdd. #WelshLanguageCharter





Dilynwch ni ar / *Follow us on*: @YGGGLlantrisant